

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y Cyfarfod	25 Tachwedd 2021
Aelod Arweiniol / Swyddog	Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau / Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio
Awdur yr Adroddiad:	Iolo McGregor, Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad ac Emma Horan, Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Teitl	Adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, Medi 2021

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y wybodaeth ddiweddaraf am adolygiad mis Medi o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr adolygiad diweddaraf o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ystyried y diwygiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (atodiad 1), gan gynnwys statws pob risg yn erbyn ein Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg (atodiad 2).

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth sydd yn datblygu ac yn berchen ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ochr yn ochr â'r Cabinet. Caiff ei hadolygu'n ffurfiol ddwywaith y flwyddyn gan y Cabinet yn ystod sesiwn frifio'r Cabinet.

- 4.2. Yn dilyn pob adolygiad ffurfiol, caiff y gofrestr ddiwygiedig ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a'i rhannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- 4.3. Cwblhawyd yr adolygiad diwethaf ym mis Chwefror 2021. [Mae'r papurau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu perfformiad ar gael ar-lein.](#)
- 4.4. Defnyddiwyd dull parodrwydd i dderbyn risg y Cyngor yn y trafodaethau a gafwyd gyda pherchnogion risg, a chaiff ein lefel risg (yn seiliedig ar y sgôr) ei ddadansoddi o fewn y Gofrestr Risg Gorfforaethol (atodiad 1).
- 4.5. Roedd ein hadolygiad ym mis Medi hefyd yn gweithredu'r camau a nodwyd yn yr adolygiad Archwilio Mewnol ym mis Mehefin o Reolaeth Risg Corfforaethol, megis nodi rheolyddion critigol ac ategol. Ymhellach i hynny, bydd y Tîm Gweithredol Corfforaethol yn dechrau 'sesiynau ffocws risg' yn fuan. Bydd y sesiynau hyn yn rhoi rhagor o amser i ni fynd i'r afael â'r risgiau sy'n peri'r mwyaf o bryder gyda'r perchnogion risg, ac fe'u dewiswyd yn rhannol yn ôl y 'bwllch' parodrwydd i dderbyn risg (sef y bwllch rhwng dosbarthiad y risg a'n parodrwydd i dderbyn risg).
- 4.6. Mae nifer o ddiweddariadau wedi bod o ran perchnogion risg, teitlau, disgrifiadau, effeithiau/ canlyniadau a chamau gweithredu. Mae ychydig o risgiau wedi cael eu sgorio o'r newydd. Mae dwy risg newydd wedi cael eu cynnig. Mae'r newidiadau hyn wedi cael eu gwneud i'r gofrestr risg ac wedi'u nodi ar ddechrau pob risg yn atodiad 1.
- 4.7. I grynhoi:
- Risg 18: Mae'r risg na fydd buddiannau rhaglen a phrosiect yn cael eu gwireddu'n llawn wedi cynyddu o ran tebygolrwydd o D3 – Risg Sylweddol: Annhebygol / Effaith Uchel i C2: Risg Sylweddol: Posibl / Effaith Uchel.
 - Risg 35: Mae'r risg y bydd yr enillion y bydd Sir Ddinbych yn eu derbyn ar ei fuddsoddiad gan y Fargen Dwf Ranbarthol yn anghymesur wedi gostwng ac wedi cael ei waredu. Mae agweddau o'r risg wedi cael eu cynnwys yn risg 18 i sicrhau craffu a rheolaeth parhaus.
 - Risg 30: Mae'r risg na fydd gallu a sgiliau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar gael i gynnal gwasanaeth a pherfformiad corfforaethol wedi cynyddu o ran

tebygolrwydd o D3 Risg Cymedrol: Annhebygol / Canolig, i C3 – Risg Cymedrol: Posibl / Canolig.

- Risg 34: Mae'r risg nad oes modd diwallu'r galw am ofal arbenigol yn lleol wedi cynyddu o C2 – Risg Sylweddol: Posibl / Effaith Uchel i A2 Risg Critigol: Bron yn bendant / effaith uchel.
- Risg 36: Diweddarwyd y risg Brexit i adlewyrchu'r darlun presennol, ac mae'r sgôr risg wedi'i ostwng o B2 – Risg Critigol: Tebygol / Effaith Uchel i C2: Risg Sylweddol: Posibl / Effaith Uchel.
- Addaswyd ffocws risg 37 i gynnwys cyfeiriad at bwysigrwydd ymdrechion ehangach i leihau anghydraddoldeb ac amddifadedd (“Y risg lle nad oes gan y partneriaid adnoddau, flaenoriaethau ar y cyd neu ymrwymiad i gefnogi cyflenwi cynlluniau a blaenoriaethau a rennir, ac yn arbennig, methiant i leihau anghydraddoldeb ac amddifadedd.”)
- Risg 43: Mae'r risg bod gan y Cyngor ddim y cronfeydd neu'r adnoddau i gwrdd â'i oblygiadau statudol o dan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 wedi cynyddu o ran effaith o D3 – risg Cymedrol: Annhebygol / Effaith Uchel i D2: Risg Sylweddol: Annhebygol / Effaith Tebygol
- Risg 44: Mae'r risg o Glefyd Coed Ynn (ADB) yn Sir Ddinbych yn arwain at achosion iechyd a diogelwch sylweddol sydd yn cynrychioli risg posib i fywyd wedi gostwng o ran tebygolrwydd o A2 – Risg Critigol: Bron yn Bendant / Effaith Uchel i B2 – Risg Critigol: Tebygol / Effaith Uchel.
- Risg 45: Mae'r risg bod y Cyngor yn methu â chyflawni rhaglen y Cyngor a sefydliadau allanol o fewn yr adnoddau presennol wedi ei ddiweddarau i ganolbwyntio'n benodol ar y newid yn yr hinsawdd (“Y risg bod y Cyngor yn methu â chyflawni statws di-garbon net a chyngor ecolegol gadarnhaol erbyn 2030”)
- Risg 47 (Newydd): Y risg y bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig newydd Gogledd Cymru yn cael effaith negyddol ar reolaeth y Cyngor ar lefel leol. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cynnig cyfleoedd i sefydlu dull strategol a rhanbarthol i'r swyddogaethau hyn i ddatblygu economi a chymunedau Sir Ddinbych.

Fodd bynnag, mae risg nad oes digon o eglurder, amser ac ymgysylltiad i fanteisio ar y cyfleoedd hyn. I'r gwrthwyneb, mae risg y bydd y Cyngor yn gweithio'n galed ond ddim yn derbyn enillion cymesur ar fuddsoddiad. Y sgôr risg gweddilliol yw D3 – Risg Cymedrol: Annhebygol / Canolig (o fewn ein parodrwydd i dderbyn risg).

- Risg 48 (Newydd): Y risg bod problemau recriwtio a chadw, sy'n arwain at gollu arbenigedd a chapasiti, yn gwaethygu gan arwain at wasanaethau gwael neu annigonol. Mae nifer o wasanaethau wedi bod yn cael trafferth recriwtio a chadw staff ers peth amser, yn arbennig – ond heb fod yn gyfyngedig i - rolau yn y maes gofal cymdeithasol ac iechyd y rheng flaen a'r maes priffyrdd a'r amgylchedd. Sgôr risg gweddilliol: B3 – Risg Sylweddol: Tebygol / Effaith Canolig (o fewn ein parodrwydd i dderbyn risg).

4.7 Parodrwydd i dderbyn risg

- Yn ystod yr adolygiad hwn, gofynnwyd i bob perchennog risg ystyried eto p'un a yw'r risg a berir yn gyson gyda'n datganiad parodrwydd i dderbyn risg neu beidio. Gofynnwyd i'r perchennog risg ystyried pob effaith a phennu'r effaith mwyaf difrifol, i nodi ein lefel parodrwydd i dderbyn risg. Rydym hefyd wedi amlinellu'r cyfeiriad disgwylidig ar gyfer pob risg. Gellir dod o hyd i astudiaeth achos yn atodiad 3.
- Mae Risgiau 1, 6, 13, 14, 21, 27, 33, 34, 36, 37, 43, 44 a 45 (gweler atodiad 1) yn anghyson gyda Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg y Cyngor (atodiad 2). Mae'r rhain wedi cael eu hadolygu mewn trafodaethau gyda pherchnogion risg, a'u sgorio cyfredol yn cael eu cytuno i fod yn briodol. Mae'r anghysonder yn cyfiawnhau bod eu cynhwysiant yn cael eu monitro fel risgiau corfforaethol.
- Mae gennym gyfanswm o 21 risg ac mae 13 ohonynt yn anghyson gyda'n parodrwydd i dderbyn risg (62%) Roedd ein hadolygiad ym mis Chwefror 2021 yn cynnwys 11 risg (allan o gyfanswm o 20) a oedd yn anghyson gyda'n parodrwydd i dderbyn risg, a bryd hynny, roedd 55% o'r risgiau corfforaethol yn anghyson gyda datganiad parodrwydd i dderbyn risg y Cyngor.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Diben y Gofrestr Risg Gorfforaethol yw amlygu digwyddiadau posibl yn y dyfodol a allai gael effaith niweidiol ar allu'r cyngor i gyflawni ei amcanion, gan gynnwys ei flaenoriaethau corfforaethol. Mae'r camau rheoli a gweithredu a amlygir felly'n hanfodol ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae costau datblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael eu cynnwys yn y cyllidebau cyfredol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn dogfennu risgiau sydd wedi'u canfod, a'r camau lliniaru. Nid yw'r broses o ddatblygu ac adolygu'r ddogfen ei hun yn cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r nodau lles. Fodd bynnag, dylid asesu effaith ar les ar gyfer unrhyw broses, strategaeth neu bolisi newydd sy'n cael eu llunio o ganlyniad i gam lliniaru.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cynhaliwyd trafodaethau unigol gyda Pherchnogion Risg (Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol) gan gynnwys mewnbwn gan swyddogion sy'n arwain ar gamau pellach er enghraifft. Ceir trafodaeth wedyn am y gofrestr gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet i gytuno a/ neu wneud diwygiadau pellach. Caiff y gofrestr derfynol ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a'i rhannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi wrth ddatblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r adolygiad hwn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Mae Adran 7.2.1 Cyfansoddiad y Cyngor yn mynnu y dylai'r gwasanaeth Archwilio adolygu neu archwilio penderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r Cyngor, boed hynny gan y Cabinet neu ran arall o'r Cyngor.